

Cofion

- Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf heddiw â Eifion Howatson (Llanefydd) a gweddill y teulu yn dilyn marwolaeth ei dad, Mr Gwyn Howatson. Gweddïwn y byddant oll yn adnabod cysur cwmni Duw a'i dangnefedd dros y dyddiau hyn.
- Anfonwn ein cofion at y cleifion yn ein plith. Mae Selwyn Davies (Cefn Meiriadog) yn parhau i gael gofal yn Ysbyty Glan Clwyd. Yno hefyd y mae Megan Evans (Llansannan), er ei bod yn gobeithio cael dod adre yn y dyddiau nesaf. Cofiw'n hefyd am Kitty Parry (Llanefydd) ac Elizabeth Jones (Llansannan) yn yr Inffirmari. Diolchwn amdanynt oll a chyflwynwn hwy a phawb arall sydd mewn angen i ofal yr Arglwydd, gan hyderu y byddant yn cael eu diogelu a'u cadw'r dyddiau hyn.

Arian Sasiwn y Chwiorydd

Bydd trysorydd eich eglwys yn falch o dderbyn unrhyw gyfraniadau tuag at gasgliad Sasiwn y Chwiorydd mor fuan â phosibl, os gwelwch yn dda. Cynhelir y Sasiwn ym Methesda eleni, a hynny ar ddydd Mercher, Mai 4ydd.

I ddod

- **CYFARFOD CHWIORYDD BRO ALED** yng Nghapel Henllan nos Fercher, Mawrth 23ain am 7.30 yng nghwmni Mrs Carys Davies, Cydlynnydd Rhaglen Dorcas yn y Gogledd.
- **OEDFA BORE'R GROGLITH I'R FRO** – Oedfa gymun yng Nghapel y Groes bore Gwener, Mawrth 25ain am 10.30.
- **Y PASG AR MOEL FODIAR** – Os bydd y tywydd yn caniatáu, bwriedir cynnal oedfa awyr agored pryd byddwn yn cofio rhai o ddigwyddiadau'r Pasg mewn gwahanol safleoedd ar Moel Fodiad (sydd rhwng Cefn Berain a Brynrhydyarian) pnawn Sul, Mawrth 27ain am 2.00. (Bydd cerbydau wedi eu trefnu i gludo'r rhai na allant gerdded i ben y mynydd.) Os na fydd y tywydd yn ffafriol, bydd oedfa yn cael ei chynnal yn Llansannan am 2.00. Mwy o fanylion i ddilyn.
- **FFILMIO? DIM CLEM!** Diwrnod gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru i'r sawl dy'n ddi-blem am ffilmio! Bydd cyfle i ddysgu sut i greu a golygu ffilm ddigidol ar eich camera rhad/drud neu ffôn yng Nghapel Caersalem, Caernarfon LL55 2RB dydd Sadwrn, Ebrill 9fed o 10.00 tan 4.00. Cost: £5.00. Dewch a'ch cinio efo chi. Paneidiau ar gael trwy'r dydd! Am ffurflen gais, ffoniwch 01758 770490 neu ebostiwch gwyn@ebpcw.org.uk.

Manylion Cyswllt

Aneurin – 📧 aneurin@eglwysibroaled.com 📞 01745 870618 📱 07775 701102
Gwion – 📧 gwion@eglwysibroaled.com 📞 01745 870522 📱 07849 591163
Sarah – 📧 sarah@eglwysibroaled.com 📞 01745 870522 📱 07900 308461
Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com 📞 01745 870632 📱 07900 627536
Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 13^{eg} Mawrth 2016

Darlleniad y Dydd

Ioan 11: 55-57

(BCND tud.115 / BCN tud.106)

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

Bore da a chroeso i'r oedfaon heddiw. Wrth ddod i ddiwedd amser hynod o brysur hefo plant a phobl ifanc y Fro yn mynd ar gyrsiau i Coleg y Bala, fe gawson ni'r cyfle i dreulio penwythnos yn y Coleg ein hunain fel "pobl ifanc" Cymru mewn cwrs o'r enw 'Arfogi'. Roedd o'n amser gwerth chweil wrth inni ddysgu a thrafod amryw o bethau. Prif bwnc yr wythnos oedd yr Ysbryd Glân – ac am bwnc! Y prif siaradwr oedd Andy Ollerton, gweinidog mewn eglwys yn Lloegr sydd yn gweld tyfiant mawr wrth iddyn nhw wasanaethu Duw a'r ardal leol.

Wrth feddwl am 'arfogi' a'r Ysbryd Glân, does yna ddim byd gwell sy'n mynd law yn llaw. Yn yr Eglwys Fore roedd y disgyblion yn aros am ddydd y Pentecost iddyn nhw gael eu harfogi i fynd allan i wneud gwaith Duw, a chafodd Iesu ei fedyddio ac fe wnaeth yr Ysbryd Glân ddisgyn arno cyn iddo gyflawni unrhyw beth o'i weinidogaeth.

Darllenwn yn yr Ysgrythur pa mor bwysig ydi'r Ysbryd Glân i'n bywydau ni fel Cristnogion, ond mor aml da ni (neu mi rydw i o leiaf!) yn anghofio amdano, neu'n ei ddibrisio. Ond mae Duw, yn y Beibl wedi addo cymaint inni trwy'r Ysbryd. Ac yn wir, fedrwn ni wneud dim hebdo! Mae Galatiaid 5 yn dweud wrthym am 'Fywyd yn yr Ysbryd'. Mae hyn yn golygu BYW hefo'r Ysbryd – deffro hefo'r Ysbryd, cael brecwast hefo'r Ysbryd, mynd i'r gwaith hefo'r Ysbryd. Mae Duw wedi anfon y Fo i'r ddaear ac felly mae angen inni fod yn hollol ymwybodol ohono Fo yn ein bywydau! Yn Ioan 16:7 mae Iesu yn siarad am yr Ysbryd fel yr un fydd yn "sefyll gyda ni", yn llythrennol felly'n cerdded trwy fywyd hefo ni.

Dangosodd Andy, yn ei eglureb o 'Fywyd yn yr Ysbryd', ddarlun o sut mae'r Ysbryd yn gweithio yn ein bywydau ni. Roedd yn sefyll ar y llwyfan yn esbonio hyn tra roedd rhywun arall (yr Ysbryd Glân) yn "helpu" iddo wneud; yn helpu iddo weddio (Rhufeiniaid 8:26-27), i roi nerth iddo (Actau 1:8), addysgu iddo o'r Ysgrythur (Ioan 14:26) ac yn y blaen.

Felly wrth inni feddwl am yr un mae Duw wedi ei roi inni, i sefyll gyda ni, i'n dysgu ni, i'n helpu ni, a'n nerthu ni i wneud gwaith y Deyrnas, dewch inni ofyn, ydan ni'n cael ein harfogi? Ydan ni'n cymryd o ddifrif yr hyn mae Duw wedi'i roi inni? Ac ydan ni'n gweithio i gael ein llenwi hefo'r Ysbryd er mwyn gwneud ei waith O? Dewch inni geisio'r nerth yma a gweld yr effaith, gweld yr hyn mae Duw yn ei wneud ynom ni trwy'r Ysbryd Glân.

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled 🐦

Sarah

Darlleniad Wythnos Nesaf

Eseia 53: 6-9 (BCND tud.670 / BCN tud.611)

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma – 13^{eg} • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Celfyn a bydd Aneurin yn pregethu.
- Llun – 14^{eg} • **Christian Viewpoint** – Cyfarfod i'r merched yng Nghanolfan Gymunedol Bae Cinmel am 7.30. Dr Rhiannon Lloyd fydd yno'n siarad am y gwersi a ddysgwyd gan wahanol rannau o'r byd am gymod. £3 yn cynnwys bwffe.
- Mawrth – 15^{fed} • **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30.
lau – 17^{eg} • **Cyfarfod Plant Llanefydd** am 3.15.
• **Henaduriaeth Dyffryn Clwyd** yn cyfarfod yng Nghapel y Pentre, Llanrhaeadr. Pwyllgor Gwaith am 4.30, Gwaith yr Henaduriaeth am 6.00 a throsoglwyddir y llywyddiaeth i Miss Morfudd Jones (Bontuchel).
• Bydd y **Cwrdd Chwarter** yn cyfarfod am 7.00 yng Nghapel Lôn Swan, Dinbych pryd y bydd Mr Arfon Jones, Caerdydd yn rhoi inni ragarweiniad i 'Flwyddyn Y Beibl Byw' ac i fersiwn brintiedig newydd sbon o'r Beibl yn yr iaith Gymraeg "Beibl.net".
- Gwener – 18^{fed} • **Cymdeithas y Beibl** – Cyfle am 3.30 i weld Beibl gwreiddiol Mari Jones ym Manc Barclays: Tŷ Thomas Charles, Y Bala (Ile derbyniodd Mary Jones ei Beibl. Mae'r seff lle cadwyd y Beiblau a'r arian a dderbyniwyd am y Beiblau a werthwyd i'w gweld yn y Banc).
• **CIC +** (Cyfle ar gyfer pobl ifanc bl. 10+ i dyfu fel Cristnogion) yn Llansannan am 7.30.
- Sadwrn – 19^{eg} • **Cymdeithas y Beibl** – **10.00-4.00** Cyfle i weld Beibl gwreiddiol Mary Jones yng Nghanolfan Byd Mary Jones; **2.00-4.00** Dr Onesimus Ngundu (Gwarchodwr y Beibl) yn ymweld â'r Ganolfan; **7.00** Gwasanaeth arbennig yng Nghapel Tegid pryd ceir anerchiad gan Dr Onesimus Ngundu, darlleniad o'r Beibl gwreiddiol, dramodig, emynau, gweddi ac eitemau yn dangos gwahanol draddodiadau'r ardal.
- Sul nesaf – 20^{fed} • **Cymdeithas y Beibl** – Beibl gwreiddiol Mary Jones yng Nghanolfan Byd Mary Jones o 10.00-12.00.
• Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Sarah, a bydd Aneurin yn pregethu.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma – 13^{eg} Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.
Sul nesaf – 20^{fed} Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.

Cyhoeddiadau

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 13^{eg} Bydd Mr Arawn Glyn yn arwain oedfa yn Llanfair am 10.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.
- Sul nesaf – 20^{fed} Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 10.30. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

Llansannan

- Sul yma – 13^{eg} Bydd Aneurin yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Llun – 14^{eg} Bydd y Pwyllgor Adeiladau yn cyfarfod am 7.30.
- Sul nesaf – 20^{fed} Bydd Sarah yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Saron a Pheniel

- Sul yma – 13^{eg} Bydd Sarah yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 2.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00.
- Sul nesaf – 20^{fed} Bydd oedfa arbennig i'r daith ar thema'r Pasg ym Mheniel am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul yma – 13^{eg} Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan ac yn Groes am 2.00.
- Sul nesaf – 20^{fed} Bydd Mr Alun Jones yn arwain oedfa yn Henllan am 10.00 a bydd Cyfarfod Gweddi yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 13^{eg} Bydd Dr Owain Edwards yn arwain oedfa deuluol **i'r daith** am 10.00 yn Llanefydd. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 2.00.
- Gwener – 18^{fed} Cynhelir y Clwb Cinio yng Nghapel Llanefydd am 11.45. Yr enwau i'w cyflwyno i Eluned (540453) neu Carol (540320) **erbyn dydd Sul, Mawrth 13eg** os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – 20^{fed} Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.